# Polisi Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi

sirgar.llyw.cymru

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Sicrhau Cyfleoedd Cyfartal

Rhaid i bob gweithiwr fabwysiadu agwedd gadarnhaol, agored a theg a sicrhau y cedwir at y polisi hwn a'i fod yn cael ei weithredu'n gyson i bawb heb ystyried hil, lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, anabledd, crefydd a chred neu ddiffyg cred, oed, rhywedd, ailbennu rhywedd, hunaniaeth o ran rhywedd a mynegiant rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd neu famolaeth, statws priodasol neu bartneriaeth sifil.

Hefyd, mae Safonau'r Gymraeg yn gofyn inni 'sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg' a dylid defnyddio'r egwyddor hon wrth weithredu'r polisi a'r weithdrefn hon.

Os oes gennych unrhyw bryderon cydraddoldeb neu amrywiaeth ynghylch gweithredu'r polisi a'r weithdrefn hon, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Caffael a fydd, os oes angen, yn sicrhau y caiff y polisi/gweithdrefn eu hadolygu yn ôl y galw. Os ydych angen y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall mae croeso ichi gysylltu â'r Uned Caffael Corfforaethol.

## Trosolwg

Nod y polisi hwn yw esbonio'n glir y cyd-destun ar arferion masnachu a chyflogi moesegol ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin o fewn ein sefydliad ein hunain a'n cadwyn gyflenwi. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau safon arfer uchel er mwyn dileu gweithredoedd caethwasiaeth fodern a masnachu pobl o fewn ein busnes a'n cadwyn gyflenwi aml-haen. Ysgrifennwyd y Polisi hwn gan yr Uned Caffael Corfforaethol a chaiff ei wreiddio ar hyd a lled y Cyngor.

Cyflwynwyd **Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015** er mwyn troseddoli caethwasiaeth, caethwasanaeth gorfodol a masnachu pobl yn y DU, cydnabyddwn ein cyfrifoldeb i'r Ddeddf a disgwyliwn i'n cyflenwyr gadw at arfer gorau a pharhau i wneud gwelliannau ymhob agwedd ar eu cadwyni cyflenwi.

Rydym wedi ymrwymo i **God Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi** Llywodraeth Cymru er mwyn dangos ein hymrwymiad cyson i ddatblygu cadwyni cyflenwi mwy moesegol wrth gyflawni ein contractau. Trwy ymrwymo i'r Cod mae'r Cyngor wedi cytuno cydymffurfio â'r 12 ymrwymiad a luniwyd i gael gwared â chaethwasiaeth fodern a chefnogi arferion cyflogaeth foesegol. Cafodd yr egwyddorion hyn eu gwreiddio yn y polisi hwn.

## Ein Hymrwymiad a Dynesiad

Cyfathrebir y polisi hwn ar hyd a lled Cyngor Sir Caerfyrddin. Bydd yr Uned Caffael Corfforaethol yn monitro ac adolygu effeithiolrwydd y polisi hwn ac mae'r Cyngor wedi penodi Hyrwyddwr Atal Caethwasiaeth a Chyflogaeth Foesegol.

Yn unol ag Ymrwymiadau'r *Cod Ymarfer* rydym yn addo cydymffurfio â'r canlynol:

## Arferion cyflogaeth

- Cynhyrchu polisi datgelu camarfer - Cafodd ein polisi datgelu camarfer presennol ei ddiweddaru er mwyn cyfeirio at God Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi ac mae'n annog gweithwyr i 'ddatgelu camarfer' pan gredir yn rhesymol fod camymddygiad wedi digwydd neu ei fod yn debygol o ddigwydd.
- Sicrhau bod arferion cyflogaeth yn cael eu prif ffrydio yn y broses gaffael – Byddwn yn mynnu fod copi o'r polisi hwn yn cael ei gynnwys ymhob tendr.
- Byddwn yn sicrhau na chynhelir hunangyflogaeth ffug ac na ddefnyddir cynlluniau ymbarél a chontractau sero awr oni bai bod y cyflogai yn gofyn yn benodol amdano - Byddwn yn lliniaru unrhyw risg o gyflogaeth anfoesegol drwy asesu cymhwysedd pob hawliad hunangyflogedig yn erbyn canllawiau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a sicrhau bod cynlluniau ac asiantaethau ymbarél wedi'u cofrestru gyda chyrff rheoleiddio priodol. Yn ogystal â hyn, bydd y tîm Rheoli Pobl yn adolygu trefniadau gweithio achlysurol yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod gweithwyr yn cael yr hawliau i gael eu cydnabod gyda statws cyflogai, lle bo hynny'n briodol.
- Byddwn yn sicrhau bod gweithwyr yn rhydd i ymuno ag undeb llafur heb unrhyw wahaniaethu – Mae ein polisïau yn sicrhau y gall staff ymuno ag undebau llafur heb unrhyw wahaniaethu.
- Mae'r Cyngor yn talu Cyflog Byw y *Living Wage Foundation* (anstatudol) fel isafswm i'n gweithwyr a byddwn yn annog ein cyflenwyr i wneud yr un peth
- Byddwn yn sicrhau bod pawb sy'n gwneud gwaith trwy gontract allanol yn cael eu trin yn deg a chyfartal – Yn unol â "Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006" mae hawliau gweithwyr yn cael eu diogelu pan mae sefydliad neu wasanaeth maen nhw'n gweithio iddo yn trosglwyddo i gyflogwr newydd. Mae contractau allanol hefyd yn gaeth i God Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Faterion Gweithlu (Cod Dwy Haen). Bydd y Cyngor Sir yn parhau i gadw at y rheoliadau hyn.

**Hyfforddiant**

- Cyflwyno rhaglen hyfforddiant ar gaethwasiaeth fodern a chyflogaeth foesegol - Gyda'n cydweithwyr yn Dysgu a Datblygu byddwn yn adnabod anghenion hyfforddiant staff, ac yn darparu hyfforddiant priodol, cyson er mwyn sicrhau dealltwriaeth o gaethwasiaeth fodern a cham-drin hawliau dynol, gan gynnwys masnachu pobl. Byddwn yn mabwysiadu modiwl e-ddysgu Llywodraeth Cymru fel rhan o'r broses hon.

**Tendro Caffael a Rheoli Contractau**

- Bydd cwestiynau ar arferion cyflogaeth moesegol yn cael eu cynnwys mewn tendrau yn ôl y galw ac yn ymgorffori amodau contract priodol.
- Darperir gwybodaeth am God Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi mewn tendrau newydd a bydd cyflenwyr yn cael eu hannog i ymrwymo i'r Cod lle'n briodol.
- Gweithio gyda chyflenwyr i sicrhau nad yw trefniadau gweithio yn tarfu ar arferion cyflogaeth foesegol – Byddwn yn gweithio gyda'n cyflenwyr i sicrhau nad ydynt yn tarfu ar arferion cyflogaeth foesegol. Byddwn yn sicrhau bod cyflenwyr yn cael eu talu'n brydlon.
- Asesu gwariant i adnabod a mynd i'r afael â materion caethwasiaeth fodern, cam-drin hawliau dynol ac arfer anfoesegol - Byddwn yn adolygu gwariant ar gyflenwyr ac yn gweithio gyda'n hadrannau i adnabod cyflenwyr risg uchel. Byddwn yn gweithio gyda chyflenwyr i unioni enghreifftiau o arfer cyflogaeth anghyfreithlon neu anfoesegol. Byddwn yn monitro arferion cyflogaeth cyflenwyr risg uchel.
- Byddwn yn sicrhau, lle'n briodol, bod manylebau tendrau yn cynnwys meini prawf caffael moesegol clir ac effeithiol, sy'n cwmpasu ffactorau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

**Proses**

Byddwn hefyd yn rhoi gwybod i'n cyflenwyr presennol am *God Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi* Llywodraeth Cymru ac yn disgwyl iddynt ymrwymo i'r Cod i gymaint graddau ag y mae hynny'n rhesymol ac ymarferol.

**Mesur ac Adrodd**

Caiff y polisi hwn ei fonitro a'i fesur, a chyflwynir adroddiadau rheolaidd ar ei weithredu i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau.

Byddwn yn cynhyrchu datganiad ysgrifenedig blynyddol ar y camau a gymerwyd i sicrhau nad yw caethwasiaeth a masnachu pobl yn digwydd o fewn y sefydliad a'n cadwyn gyflenwi – cyflwynir y datganiad blynyddol i'r Bwrdd Gweithredol a'r Tîm Rheoli Corfforaethol i'w gymeradwyo, caiff ei gymeradwyo gan yr Hyrwyddwr Atal Caethwasiaeth a Chyflogaeth Foesegol a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor Sir.